**Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015**

**Datganiad Blynyddol Caethwasiaeth Fodern 2025-26 - Prifysgol Wrecsam a'i His-gwmnïau Cysylltiedig.**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn ymyriad ar hawliau dynol sylfaenol. Mae'n digwydd mewn sawl ffordd, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl, pob un yn rhannu'r elfen gyffredin, sef amddifadu unigolyn arall o'i ryddid er mwyn eu hecsploetio er mantais bersonol neu fasnachol.
Mae'r term Caethwasiaeth Fodern yn cwmpasu amrywiaeth mawr o fathau o ecsbloetio, gyda llawer ohonynt yn digwydd gyda'i gilydd. Mae rhywun mewn caethwasiaeth os ydynt yn:

- Cael ei gorfodi i weithio - drwy fygythiad meddyliol neu gorfforol.
- Dan berchnogaeth neu'n cael eu rheoli gan 'gyflogwr', fel arfer yn sgil cam-drin meddyliol neu gorfforol neu fygwth cam-drin.
- Wedi'u dad-ddynoli, eu trin fel 'nwydd', neu'n cael eu prynu a'u gwerthu fel 'eiddo'.
- Dan gyfyngiadau corfforol neu gyfyngiadau ar ei ryddid ef / hi i symud.

1.2 Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i wella ei harferion i wrthsefyll caethwasiaeth a masnachu pobl.

1.3 Gwneir y datganiad hwn yn unol ag Adran 54(1) o'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ac fe'i mabwysiadwyd fel datganiad ar gaethwasiaeth a masnachu pobl Prifysgol Wrecsam ar gyfer y flwyddyn ariannol a fydd yn dod i ben yn 31 Gorffennaf 2026, ac mae'n cwmpasu'r Brifysgol a'i holl Is-gwmnïau.

## 2. Strwythur sefydliadol

2.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ddarparwr dysgu, addysgu ac ymchwil yn y Sector Addysg Uwch.

2.2 Gellir olrhain dechreuadau'r Brifysgol yn ôl i 1887 pan ddechreuodd Ysgol Gelf a Gwyddoniaeth Wrecsam ddarparu addysg am y tro cyntaf a dechreuodd gynnig graddau o Brifysgol Llundain yn 1892.

2.3 Bu sawl newid enw dros y blynyddoedd; yn 2008, daeth Sefydliad Addysgu Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru yn Brifysgol Glyndŵr, gan ei gwneud yn un o'r prifysgolion ieuengaf yn y DU. Ym mis Chwefror 2023, yn dilyn cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor mae'r Brifysgol wedi newid ei enw'n ddiweddar i Brifysgol Wrecsam / Wrexham University.

2.4 Mae'r Brifysgol yn darparu addysg uwch i bobl gogledd ddwyrain Cymru a'r ardal drawsffiniol, gan chware rôl hanfodol bwysig gan hynny ym mywyd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y rhanbarth. Mae hefyd yn denu ymrestriadau myfyrwyr sylweddol o rannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol. Mae'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr lleol er mwyn sicrhau bod ganddynt fynediad at weithlu sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau addas, yn ogystal â darparu gwasanaethau ymchwil a datblygu mewn meysydd arbenigol.

2.5 Mae'r Brifysgol yn cael ei chydnabod yn eang fel un o brifysgolion arweiniol y DU o ran cefnogi myfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is.

2.6 Mae myfyrwyr o Gymru yn parhau i ffurfio rhan bwysig o boblogaeth myfyrwyr y Brifysgol. Mae nifer arwyddocaol o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg neu'n dymuno gwella eu sgiliau iaith

Gymraeg ac mae'r Brifysgol yn cadarnhau ei hymrwymiad i hwyluso hyn. Mae Prifysgol Wrecsam yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni hyn, a bydd yn golygu datblygu adnoddau ychwanegol a chefnogaeth, gan wella rhaglenni astudio academaidd a lleoliadau gwaith. Mae'r Brifysgol hefyd yn ymrwymedig i fodloni ei hymrwymiadau o dan Safonau'r Gymraeg.

2.7 Mae'r mwyafrif helaeth o fyfyrwyr y Brifysgol yn dod i brif gampws y Brifysgol ar Ffordd yr Wyddgrug yn Wrecsam, er ei bod hefyd yn gweithredu o'r campws Stryt y Rhaglaw yn Wrecsam a safleoedd yn Llanelwy a Llaneurgain.

2.8 Mae gan y Brifysgol drosiant blynyddol byd-eang o £60 miliwn.

## 3. Cadwyni cyflenwi

3.1 Mae'r Brifysgol yn gwario oddeutu £20 miliwn yn flynyddol gyda nifer helaeth o gyflenwyr sy'n darparu ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ei chadwyni cyflenwi wedi eu gwasgaru ar draws y byd ac y gallai rhannau o'r gadwyn gyflenwi fod yn ymwyneud â chaethwasiaeth fodern. Mae adnoddau'r Brifysgol ar gyfer monitro a rheoli ei chadwyni cyflenwi yn gyfyngedig ac felly bydd yn canolbwyntio ar ei chyflenwyr uniongyrchol, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwr sicrhau bod eu cadwyni cyflenwi hwy yn rhydd o gaethwasiaeth fodern.

3.2 Mae'r sectorau risg uchel ar gyfer caethwasiaeth fodern yn cynnwys amaethyddiaeth, hamdden, lletygarwch, arlwyo, glanhau, dillad, gwaith adeiladu a gweithgynhyrchu. Mae adolygiad o wariant y Brifysgol wedi dangos bod y Brifysgol, o safbwynt y rhan fwyaf o'r meysydd gwariant risg uchel, yn defnyddio cytundebau fframwaith cenedlaethol neu ranbarthol ac ystyrir bod caethwasiaeth fodern a masnachu pobl gan ein cyflenwyr uniongyrchol yn isel.

3.3 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ei chyflenwyr uniongyrchol hefyd yn ymwybodol o'u hymrwymiad i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl a'u bod yn deall eu hymrwymiadau fel cyflenwr neu gontractwr ar gyfer y Brifysgol.

3.4 Mae'r Brifysgol wedi datblygu dogfennau Templed Gwahoddiad i Dendro (ITT), sydd nawr yn cynnwys cwestiynau priodol ar gyflogaeth foesegol, caethwasiaeth fodern, yn ogystal ag ar Arferion Gwaith Teg.

3.5 Mae'r Brifysgol, fel aelod o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (HEPCW), wedi ymrwymo i'r Adnodd Ymgysylltu Cyflenwyr NETPositive er mwyn ymateb yn weithredol i'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern o fewn ein cadwyni cyflenwi. Mae'r Adnodd yn dehongli'r ymrwymiad i waredu caethwasiaeth fodern mewn termau ehangach na'r hyn a wneir o dan y Ddeddf, ac yn annog pob cyflenwr, waeth beth fo'u trosiant blynyddol, i wneud ymrwymiad cyhoeddus i weithredu yn erbyn caethwasiaeth fodern. Mae'r adnodd yn ein galluogi ni i ddeall canran y cyflenwyr sy'n cydnabod bod caethwasiaeth fodern yn broblem i'w busnes, er mwyn adnabod camau gweithredu yn arwain o hynny i gael eu cymryd ganddynt er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern; a cheisio cael gwybod pwy yw'r cyflenwyr hynny sydd heb fod yn cydnabod bod caethwasiaeth fodern yn ystyriaeth.

3.6 Yn ystod 2024/25, roedd gan 322 o gyfanswm cyflenwyr y Brifysgol gynlluniau gweithredu ar y Pecyn Ymgysylltu â Chyflenwyr, sy'n dangos bod:

- 100% o'r cyflenwyr yn datgan eu bod yn ymwybodol o Gaethwasiaeth fodern.
- 27% o gyflenwyr wedi dewis cyhoeddi datganiad Caethwasiaeth Fodern er eu bod yn is na'r trothwy ariannol.
- 46% o'r cyflenwyr uwchben y trothwy ac wedi dewis i gyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern.
- 100% o gyflenwyr wedi datgan nad ydynt wedi cael unrhyw achosion o Gaethwasiaeth Fodern.
- 81% o gyflenwyr wedi profi rhyw ffurf ar hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern i'w staff.

- 60% o gyflenwyr gyda mecanwaith cytundeb ffurfiol yn ei le ar gyfer adrodd am Gaethwasiaeth Fodern

- 73% o gyflenwyr wedi cynnal dadansoddiad risg Caethwasiaeth Fodern neu'n cynllunio i wneud hynny yn y 12 mis nesaf.

## 4. Polisïau ar gaethwasiaeth a masnachu pobl

4.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo (cyn belled ag y bo'n rhesymegol bosib) i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ei chadwyni cyflenwi nac unrhyw ran o'i busnes.

4.2 Yn wyneb yr ymrwymiad i adrodd ar fesurau i sicrhau bod holl rannau o'i busnes a'i chadwyn gyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei pholisïau a gweithdrefnau yn y gweithle i asesu eu heffeithiolrwydd yn adnabod a mynd i'r afael â materion caethwasiaeth fodern.

4.3 Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny yn y gweithle yn arddangos ymrwymiad y Brifysgol i weithredu'n foesegol a chydag uniondeb yn ei holl berthnasoedd busnes ac i roi systemau a rheoliadau effeithiol ar waith a'u mynnu er mwyn sicrhau (cyn belled ag y mae'n rhesymegol bosib) nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn unrhyw ran o'i chadwyni cyflenwi.

4.4 Mae'r Brifysgol yn gweithredu'r polisïau canlynol sy'n cyfrannu at ei hymdrechion i rwystro caethwasiaeth a masnachu pobl yn ei gweithrediadau.

**4.4.1 Polisi chwythu'r chwiban.** Mae'r polisi hwn yn darparu dulliau diogelu er mwyn galluogi staff i fynegi pryderon ynghylch camymarfer mewn cysylltiad â Phrifysgol Wrecsam. Y nod yw darparu mecanwaith cyflym lle y gall pryderon gwirioneddol gael eu codi'n fewnol heb fod yn ofni unrhyw sgil-effeithiau i'r unigolyn, hyd yn oed oes yw eu pryderon yn profi i fod yn gamgymeriad. Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o onestrwydd ac uniondeb, bod yn agored ac yn atebol, ac mae'n annog ei staff i godi pryderon gwirioneddol ynghylch camymarfer ar y cam cynharaf posib gan wybod y bydd eu pryderon yn cael eu hystyried o ddifrif ac yn cael eu hymchwilio iddynt. Mae camymddygiad o fewn y Brifysgol yn cael ei ystyried o ddifrif.

**4.4.2 Cod ymddygiad gweithwyr.** Mae hwn wedi'i ymgorffori mewn Siarter Staff, sydd â'r pwrpas o wneud disgwyliadau'r Brifysgol o'i staff yn eglur, ac yn hollbwysig, i rannu ymrwymiadau'r Brifysgol i'w staff.

**4.4.3 Polisi Recriwtio a Dethol.** Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddenu a chadw staff sy'n perfformio ar lefel uchel sy'n gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr i'w llwyddiant parhaus. Mae'r Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Recriwtio a Dethol Staff gyda'i gilydd yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni rhagoriaeth ym mhob agwedd o arferion recriwtio'r Brifysgol.

**4.4.4 Polisi Caffael** Bydd swyddogaeth caffael Prifysgol Wrecsam yn darparu arbenigedd caffael proffesiynol i'r Bwrdd Llywodraethwyr, y Tîm Gweithredol a'r staff. Bydd yn cyfrannu'n llawn at gyflawni amcanion a nodau'r Bwrdd a bydd yn parhau i godi proffil caffael yn y Brifysgol drwyddi draw, gan sicrhau bod anghenion busnes y Bwrdd yn cael eu bodloni drwy brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith a bod nodau ac amcanion Polisi Llywodraeth Cymru yn greiddiol i'w gweithgaredd caffael. Bydd hefyd yn cyfeirio at anghenion Medr (a adwaenid yn flaenorol fel Cyngor Cyllidol Addysg Uwch Cymru (HEFCW) ac amcanion amgylcheddol, cynaliadwy a moesegol y Brifysgol. Bydd y swyddogaeth Caffael yn rheoli ac yn datblygu ei gyflenwyr a'i sail gyflenwi yn weithredol, gan adnabod a rheoli unrhyw risgiau cyflenwi.

**4.4.5 Polisi Gwrth-dwyll.** Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn berthnasol ym mhob un o'i meysydd gweithrediad a bod ei holl fusnes yn cael ei gynnal mewn ffordd onest a thryloyw. Fel sefydliad addysgol ac elusen sydd â chyfran sylweddol o'i incwm yn deillio o arian cyhoeddus, rhoddion a sefydliadau elusennol, mae'r Brifysgol yn awyddus i amddiffyn ei hun a'i hariannwyr, rhoddwyr, cyflogwyr a myfyrwyr rhag y niwed sy'n

gysylltiedig â llwgrwobrwyo ac unrhyw weithgaredd llwgr arall. Gan hynny, mae'n ymrwymedig i atal llwgrwobrwyo a thwyll gan staff ac unrhyw drydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer, neu ar ran y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y bydd y risg o lwgrwobrwyo a thwyll yn codi mewn amrywiol gyd-destunau a bydd yn ceisio cynghori, hysbysu a/neu hyfforddi ei gweithwyr yn briodol er mwyn asesu'r risg o lwgrwobrwyo a thwyll allai gael eu harfer a rhoi arferion ar waith a fydd yn lleihau'r risg ohono'n digwydd neu o fod heb ei adnabod lle nad yw prosesau yn eu lle eisoes.

**4.4.6 Polisi Buddsoddiad Moesegol Rheoli'r Trysorlys.** Mae'r Brifysgol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'w swyddogion gymryd sylw priodol o ystyriaethau llywodraethiant corfforaethol, cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol priodol wrth ddethol, cadw a gwireddu holl fuddsoddiadau'r trysorlys. Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid y Bwrdd Llywodraethwyr yn disgwyl i hyn gael ei gwneud mewn modd sy'n cyd-fynd ag amcanion buddsoddi a dyletswyddau cyfreithiol y Brifysgol.

**4.4.7 Datganiad Gwerth am Arian.** Mae Prifysgol Wrecsam yn cydnabod ei chyfrifoldeb i gyflawni gwerth am arian gan ei holl weithgareddau, pa ffordd bynnag y caent eu hariannu. Yn benodol mae yna ddyletswydd gofal er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario ar y pwrpasu y bwriadwyd ef, a bod gwerth da am arian yn cael ei sicrhau. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i bwrpas economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei gweithgareddau corfforaethol ac academaidd. Bydd yn ceisio mabwysiadu arfer da ac ymgorffori egwyddorion VFM yn ei holl weithgareddau.

**4.4.8 Rheoliadau Ymarfer Ymchwil.** Mae Prifysgol Wrecsam yn rhan o God Ymarfer Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU ar gyfer Ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009. Mae'r CoP yn berthnasol i sefydliadau ymchwil ac i ymchwilwyr a bydd yn ymdrechu i fodloni'r holl ymrwymiadau y mae'r Cod yn ei roi ar sefydliadau ymchwil. Rhaid i bob ymchwil a gynhelir o dan fantell y Brifysgol gael ei adolygu mewn modd moesegol a'i gymeradwyo cyn y gall casglu data ddechrau. Bydd rhai sy'n arwain neu'n goruchwylio ymchwil sy'n gysylltiedig â chyfranogwyr dynol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i holiaduron, cyfweliadau, samplau dynol ac ymchwil clinigol) neu anifeiliaid annynol sicrhau cymeradwyaeth gan Is-bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol fel y mae'n ofynnol gan Ganllawiau RESC sydd mewn grym ar y pryd, ynghyd ag unrhyw adolygiad allanol a/neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn y maes astudiaeth o dan sylw, cyn dechrau'r ymchwil.

## 5. Hyfforddiant

5.1 Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddatblygu a darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i'n gweithwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol, a chosbrestru. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnwys fel rhan o'r rhaglen hyfforddi corfforaethol gan ddefnyddio modiwlau hyfforddi e-ddysgu ar gaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Mae'r swyddogaeth Caffael a'r Adran Adnoddau Dynol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn adnabod cyflogwyr sy'n ymwneud â phrynu /caffael a recriwtio a dosbarthu gweithwyr i ddarparu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesegol.

## 6. Gweithredu Cyflogaeth Foesegol Llywodraeth Cymru mewn Cadwyni Cyflenwi: Cod Ymarfer

6.1 Mae'r Brifysgol wedi rhoi'r camau gweithredu perthnasol ar waith sy'n gysylltiedig gyda'r 12 ymrwymiad allweddol sy'n cael eu hadnabod yng Nghod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru.

## 7. Yn ystod Blwyddyn Ariannol 2025-26 ein bwriad yw:

- Parhau i ymgysylltu a defnyddio'r Adnodd Ymgysylltu â Chyflenwyr NETPositives er mwyn ein galluogi i ddeall mewn ffordd weithredol beth yw canran y cyflenwyr sy'n cydnabod bod Caethwasiaeth Fodern yn broblem i'w busnes, er mwyn adnabod camau gweithredu yn arwain o hynny i gael eu cymryd ganddynt er mwyn

mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern; ac i geisio cael gwybod pwy yw'r cyflenwyr hynny sydd heb fod yn cydnabod bod Caethwasiaeth Fodern yn ystyriaeth.

- Diweddaru a chyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn flynyddol er mwyn adlewyrchu cynnydd ar ein camau gweithredu.

**Dr Leigh Griffin**
**Cadeirydd, Bwrdd**
**Llywodraethwyr Prifysgol**
**Wrecsam**
**Dyddiad: 13eg Tachwedd 2025**